

# Cyhoeddi Arolwg o Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Mewn Bacteria Mewn Cyw Iâr a Phorc

Mae'r arolwg hwn yn dilyn adroddiad awdurdodol gan grŵp a sefydlwyd gan y Pwyllgor Cyngori ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd (ACMSF) i'n cyngori ar gwestiynau ymchwil a dulliau posibl o weithredu ar AMR yn y gadwyn fwyd.

Roedd yr arolwg yn cynnwys profi *Campylobacter* mewn samplau cyw iâr a *Salmonella* mewn samplau briwrig porc ar gyfer bacteria ymwrthol. Roedd yr arolwg hefyd yn edrych am AMR mewn bacteria eraill yn y ddau fath o gig, gan gynnwys *Enterococci*, *Klebsiella* ac *Escherichia coli*. Gellir dod o hyd i [adroddiad terfynol yr arolwg yma](#) (Saesneg yn unig)

Mae'r risg o ddatblygu heintiau ymwrthedd gwrthficrobaidd o'r bwyd hyn yn isel iawn os bydd y cyw iâr a'r porc wedi'u coginio'n drylwyr, nes bod y sudd yn rhedeg yn glir. Bydd hyn yn lladd y bacteria sy'n achosi gwenwyn bwyd, gan gynnwys bacteria sy'n ymwrthod gwrthficrobau..

Meddai Steve Wearne, Cyfarwyddwr Polisi Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

"Mae unrhyw AMR sy'n ymddangos ac yn lledaenu yn creu bygythiad byd-eang sylweddol o ran iechyd y cyhoedd ac effaith economaidd, ac rydym ni'n benderfynol o fynd i'r afael â'r bygythiad hwn. Roedd [Adroddiad O'Neill](#) yn galw am weithredu brys i leihau presgripsiynau gwrthfotig, gwella glanweithdra a hylendid, lleihau defnydd o wrthfotigau mewn amaethyddiaeth a lleihau llygredd amgylcheddol. Yn ogystal â lleihau'r defnydd o wrthfotigau ar ffermydd, mae angen i ni hefyd ddeall rôl bwyd mewn AMR ac rydym ni'n gweithio gyda Sefydliad Quadram yn Norwich i ddeall sut mae ymwrthedd yn digwydd a sut mae bacteria ymwrthol yn goroesi ac yn cael eu trosglwyddo drwy'r gadwyn fwyd.

"Rwy'n falch bod y diwydiant bwyd hefyd yn cymryd ei rôl stiwardio o ddifri ac yn gweithredu argymhellion O'Neill. Gostyngodd y defnydd o wrthfotigau yn y sector cig dofednod 82% rhwng 2012 a 2017 ac mae defnydd o wrthfotigau ym moch y DU wedi haneru rhwng 2015 a 2017. Mae dal rhagor sydd angen i'r diwydiant ei wneud ac rydym ni'n herio'r holl sectorau cynhyrchu bwyd i barhau i leihau'r lefelau o wrthfotigau y maent yn eu defnyddio i helpu gyda'r frwydr yn erbyn AMR."

Meddai Cadeirydd y Gynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth (RUMA), Gwyn Jones:

"Ein ffocws yw lleihau, mireinio neu ddisodli'r defnydd o wrthfotigau; tra bod rhai sectorau da byw eisoes wedi cyflawni canlyniadau anhygoel, yn sicr mae rhagor i'w wneud mewn sectorau eraill. Credwn y bydd ymchwil newydd yr ASB yn ychwanegu at y banc gwybodaeth ac yn helpu i nodi ymyriadau ychwanegol sy'n lleihau unrhyw facteria ymwrthol mewn bwyd, gan ddiogelu ein mynediad parhaus i wrthfotigau sy'n

trin afiechyd ac atal poen neu ddiodefaint mewn anifeiliaid.”

Georgina Crayford, the National Pig Association’s senior policy adviser said:

“Mae diwydiant moch y DU wedi bod yn gweithio'n hynod o galed i leihau ei ddefnydd o wrthfotigau, i gyfyngu ar ddatblygiad AMR. Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn rhoi lefel ychwanegol o fanylion a fydd yn ategu'r swm cynyddol o ddata sy'n ymwneud â defnyddio gwrthfotigau a phresenoldeb bacteria ymwrthol yn y gadwyn cyflenwi porc. Bydd yr wybodaeth yn helpu i lywio penderfyniadau gan gynhyrchwyr moch a'u milfeddygon ynghylch rheoli iechyd moch a byddant yn llywio camau parhaus tuag at stiwardio gwrthfotigau ymhellach.”

Meddai Georgina Crayford, Uwch Gynghorydd Polisi Cymdeithas Cenedlaethol y Moch:

“Mae sector cig dofednod Prydain yn ceisio rhagori mewn iechyd a lles adar ac yn cyflenwi defnydd cyfrifol o wrthfotigau ac yn diogelu effeithiolrwydd gwrthfotigau. Rydym ni'n cynnal safle'r DU ar flaen y gad o ran ymdrechion rhyngwladol i sicrhau bod gwrthfotigau yn effeithiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd. Rydym ni'n falch o'n hymrwymiad i ddatblygu'n barhaus a meithrin yr ymddiriedaeth a'r hyder sydd gan ein defnyddwyr yn ein bwyd. Trwy Stiwardiaeth Gwrthfotigau BPC, rydym ni'n ceisio deall yn well y cysylltiad rhwng y defnydd o wrthfotigau ac ymwrthedd yn y gadwyn cynhyrchu dofednod. Trwy weithredu mwy cydlynol rhwng ffermwyr, cynhyrchwyr, milfeddygon, academyddion yn ogystal â gwneuthurwyr polisi ar lefel leol, ranbarthol, cenedlaethol a byd-eang, byddwn ni'n parhau i ddiogelu effeithiolrwydd ein gwrthfotigau a byddwn ni'n cyfrannu at droi'r llanw yn erbyn ymwrthedd gwrthficrobaidd.”

Bydd ein Bwrdd yn trafod AMR yn ei gyfarfod ar 19 Medi yng Nghaerdydd.